Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arweinwyr a staff
Ysgol Dyffryn Ogwen
Ffordd Coetmor
Bethesda
Gwynedd
LL57 3NN

22/07/2025

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2025

Annwyl arweinwyr a staff,

Diolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar y 18fed a'r 19eg o Fehefin 2025. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion i glywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i gyflawni ers yr arolygiad craidd ym mis Medi 2019.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- drafod ag arweinwyr y cynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu a'ch gwaith o ran gwella effeithiolrwydd y prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant;
- siarad â disgyblion o wahanol oedrannau yn ystod eu gwersi;
- siarad ag arweinwyr canol am eu rolau o ran ysgogi gwelliannau yn y ddau faes o dan sylw;
- gynnal arsylwadau gwersi ar y cyd ag uwch arweinwyr i gefnogi eich gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliant;
- i graffu ar waith ar y cyd ag uwch arweinwyr;
- i arsylwi ychydig o wersi, craffu ar sampl fach o waith disgyblion a chraffu ar sampl fach o ddogfennau perthnasol a ddarparwyd gan yr ysgol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol yw gwaith arweinwyr i wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol?

Ers yr arolygiad diwethaf, ymddengys bod arweinwyr wedi sicrhau ffocws cyson ar wella a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws y pynciau. Mae dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio ar gynyddu lefel yr her mewn gwersi, cynllunio i fodloni anghenion disgyblion a datblygu gallu athrawon i holi'n fwy effeithiol. Yn fwy diweddar, mae'r gwaith wedi ffocysu ar ddatblygu disgyblion i fod yn fwy annibynnol. O'r ychydig o wersi a arsylwyd, ymddengys bod y cynllunio strategol hwn yn dechrau cael effaith bositif ar ymarfer athrawon.

O'r sampl fach o waith disgyblion a ystyriwyd, mae amrywiaeth yn ansawdd ac effeithiolrwydd asesu ac adborth ar draws y pynciau. Yn yr achosion gorau, mae sylwadau athrawon yn glir, yn bwrpasol ac yn arwain y disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau pwnc neu eu medrau ehangach. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn rhoi digon o adborth amserol ar waith estynedig disgyblion.

### Credwn y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r arferion gorau o ran holi er mwyn lleihau'r amrywiad rhwng athrawon?
- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o gyfranogiad a chyflawniad bob disgybl?
- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod tasgau'n cynyddu mewn her dros amser?
- Sut bydd arweinwyr yn lleihau'r amrywiad yn ansawdd ac effaith adborth athrawon ar waith disgyblion?

### Pa mor effeithiol yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod yr ymweliad, roedd cyfle i drafod sut mae arweinwyr wedi mynd i'r afael a'r argymhelliad ers yr arolygiad craidd yn 2019 a'r ymweliad monitro dilynol. Ers yr ymweliad monitro dilynol, mae arweinwyr wedi rhoi sylw teilwng i gryfhau a chysoni prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Roedd yn dda gweld bod y cynllun gwella ysgol yn cynnwys blaenoriaethau synhwyrol a bod gwaith yr ysgol wedi'i seilio'n briodol ar y meysydd gwella hyn.

Mae'r drefn sicrhau ansawdd yn synhwyrol ac mae gweithgareddau pwrpasol wedi eu trefnu ar draws y flwyddyn i alluogi arweinwyr ar bob lefel i fonitro ansawdd ac i werthuso cynnydd yn erbyn deilliannau dymunol cyffredinol. Mae'n dda nodi bod uwch arweinwyr wedi sicrhau bod arweinwyr canol, gan gynnwys cydlynwyr y medrau, yn datblygu yn eu rolau trwy fod yn rhan o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi

gwersi, craffu ar waith disgyblion a llunio arfarniadau cryno o'u canfyddiadau. Mae hyn yn ddatblygiad yn rôl a gwaith arweinwyr canol o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd. Rhoddir sylw teilwng i farnau disgyblion yn y prosesau hyn ac, yn yr achosion gorau, gwneir newidiadau i'r ddarpariaeth o ganlyniad.

Trafodwyd gydag arweinwyr sut maent wedi ceisio cynyddu'r ffocws ar ansawdd yr addysgu mewn cyfarfodydd rheoli ac yn eu gweithgareddau monitro. Ymddengys bod cyfarfodydd boreol wythnosol yn canolbwyntio ar gysoni arferion da mewn addysgu ac asesu ac yn gyfle buddiol i ymarferwyr rannu arferion cadarn o'u gwaith. Mae'r drefn newydd hon yn cael ei gwerthfawrogi gan y staff.

### Credwn y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd mwy penodol o wybodaeth am gynnydd a chyflawniad disgyblion i werthuso ansawdd ac effeithiolrwydd eu gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwella?
- Sut bydd arweinwyr ar bob lefel yn mireinio'r gweithgareddau sicrhau ansawdd i'w galluogi i ganolbwyntio'n agosach ar safonau a chynnydd disgyblion?
- I ba raddau mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn ystyried yr ystod eang o ddata cyrhaeddiad a lles sydd ar gael iddynt er mwyn adnabod meysydd penodol sydd angen eu gwella ac i gryfhau atebolrwydd?

Diolch unwaith eto am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Dymunwn yn dda i chi at y dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-dyffryn-ogwen-cy/6614002

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol